**EITEM AR YR AGENDA: 10**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**19eg Mehefin 2006**

## CRYNODEB O WEITHGARWCH ARCHWILIO MEWNOL 2005/06 A FERSIWN DRAFFT Y CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL AR GYFER 2006/07

**Adroddiad gan Ken Finch, Trysorydd i'r Awdurdod**

### Diben yr Adroddiad

**1.** Cael crynodeb o waith Archwilio Mewnol ar gyfer 2005/06 a chymeradwyo Fersiwn Drafft y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2006/07.

### Cyflwyniad

**2.** Yn unol ag amodau Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005, a wnaed dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, mae cyfrifoldeb statudol ar Awdurdodau Tân i gynnal "cyfundrefn archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol".

**3.** Caiff y swyddogaeth Archwilio Mewnol ei chyflawni ar ran yr Awdurdod Tân ac Achub gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a swyddogaeth werthuso annibynnol ydyw ar gyfer pob lefel reoli i adolygu gweithgarwch yr Awdurdod Tân ac Achub fel gwasanaeth ar gyfer pob lefel reoli.

**Cyflwyniad** *(parhad)*

**4.** Mae Rheoliadau Ariannol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (AT&AGC) yn nodi y dylid cyflwyno adroddiad dan nawdd AT&AGC ar y cynllun archwilio ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod ac adroddiad ar gyflawniad mewn perthynas â'r cynllun gwreiddiol ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol.

**5.** Daw i ran y Prif Swyddog Tân a'r darparwyr archwiliadau mewnol i bennu cynnwys y cynllun archwilio. Fe ddylid paratoi'r cynllun mewn ymgynghoriad â'r Archwilydd Allanol.

**6.** Swyddfa Archwilio Cymru yw archwilydd allanol y Gwasanaeth Tân ac Achub ar hyn o bryd.

**7.** Gellir rhannu gwaith archwilio mewnol yn fras yn bedwar categori:

(a) **Archwiliadau Cysondeb,** sydd wedi'u cynllunio i sicrhau:

- Y caiff yr holl incwm sy'n ddyledus i AT&AGC ei gasglu, ei dderbynebu, ei ddiogelu, ei fancio a'i gofnodi yn y modd cywir.
- Y caiff pob taliad ei awdurdodi yn y ffordd gywir, o fewn y gyllideb ac yn unol â Rheolau Sefydlog a Rheoliadau Ariannol AT&AGC.
- Bod pob aelod o staff wedi cael ei benodi yn y modd priodol ac yn cael ei dalu yn unol â thelerau ac amodau ei benodiad.
- Y caiff AT&AGC werth ei arian wrth brynu nwyddau a gwasanaethau.
- Y caiff eiddo ac asedau eraill eu cofnodi a'u diogelu yn y modd cywir.

**Cyflwyniad** *(parhad)*

(b) Mae **Archwiliadau Systemau** wedi'u bwriadu i sicrhau bod pob system a gweithdrefn yn cynnwys trefniadau rheoli digonol er mwyn atal twyll neu anghysonderau eraill, e.e. Fe ddylai fod a wnelo o leiaf dau berson â phob gweithdrefn.

(c) **Archwiliad o Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu.** Caiff hwn ei ddefnyddio i brofi hygrededd systemau cyfrifiadurol sydd ar waith a hefyd er mwyn cynorthwyo i ddod o hyd i dwyll ac anghysonderau drwy archwilio systemau cyfrifiadurol.

(ch) **Archwiliadau Contractau,** sy'n cynnwys gwerthuso darpar gontractwyr o safbwynt eu sefyllfa ariannol, archwiliad o drefniadau rheoli sydd mewn grym er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud â Chontractau ac archwiliad o sampl o gontractau cyfredol a rhai a gyflawnwyd eisoes gan gynnwys dilysu cyfrifon terfynol.

**8.** Caiff adroddiad ei baratoi yn dilyn pob archwiliad mewnol sydd:

- Yn nodi pwrpas, cwmpas, canfyddiadau a chasgliadau'r archwiliad.
- Yn gwneud argymhellion er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw wendidau a nodwyd.
- Yn cynnwys cynllun gweithredu i arolygu'r broses o roi'r argymhellion ar waith ac i gynorthwyo efo'r broses honno.
- Darparu archwiliad dilynol o fewn amser rhesymol i adeg cyhoeddi'r adroddiad terfynol.

**Adolygiad o Weithgarwch 2005/06**

**9.** Yn ystod 2005/06 darparwyd 50 diwrnod archwilio yn unol â'r cynllun archwilio strategol. Paratowyd tri adroddiad yn ystod y flwyddyn ar y canlynol:

- **Gorsafoedd rhan amser - Gogledd a De Gwynedd, Ynys Môn -** i adolygu, profi ac adrodd am ddigonolrwydd ac effeithlonrwydd rheoliadau mewnol sydd mewn grym, mewn perthynas â thaliadau i ddiffoddwyr tân, awdurdodi pryniannau, cynnal rhestrau eiddo'r gorsafoedd a llenwi llyfrau log tanwydd cerbydau, gwaith cynnal a defnydd.
- **Lwfansau Aelodau a Gwariant -** canfod y gweithdrefnau mewn perthynas â'r Cynllun ar gyfer Talu Lwfansau Aelodau a sefydlwyd gan yr Awdurdod, cymeradwyo a thalu Lwfansau Aelodau (Lwfansau Sylfaenol a Chyfrifoldeb Arbennig) a ffurflenni teithio a chynhaliaeth, gyda'r bwriad o adolygu a phrofi digonolrwydd y rheoliadau mewnol sydd mewn grym.
- **Rheoli'r Fflyd –** sicrhau bod systemau rheoli mewnol a chadw cofnodion sy'n gweithredu Rheoli Fflyd yn briodol, ac er mwyn rhoi sicrwydd i'r rheolwyr bod y Gwasanaeth Tân ac Achub yn cael gwerth am arian wrth ddarparu, rheoli a chynnal cerbydau.

**10.** Roedd y safbwyntiau archwilio a fynegwyd yn yr adroddiadau'n nodi bod safon gyffredinol y cofnodion ariannol a'r cofnodion eraill a archwiliwyd yn dda iawn, efo anghysondebau bach ar lefel y gorsafoedd rhan amser.

**11.** Er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd yn ystod yr arolygon archwilio fe wnaed saith o argymhellion.

## Adolygiad o Weithgarwch 2005/06 *(parhad)*

**12.** Dosbarthwyd cynlluniau gweithredu yn cynnwys argymhellion yr archwiliad ynghyd â fersiynau drafft yr adroddiadau ac mae'r rhain wedi cael eu dychwelyd gan reolwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub ynghyd â manylion y camau y bwriedir eu cymryd i sicrhau y caiff yr argymhellion eu gweithredu.

**13.** Mae'r crynodeb o'r gweithgarwch archwilio'n dangos sut y bwriedir dosrannu adnoddau archwilio o ran diwrnodiau gwaith dros adrannau a gwasanaethau ac mae'n cymharu'r gwaith a wnaed mewn gwirionedd yn ystod 2005/06 â'r cynllun.

## Barn Archwilio

**14.** Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod 2005/06, barn yr Archwiliad Mewnol o'r dulliau gweithredu a bennwyd gan y rheolwyr er mwyn cael Rheolaeth Ariannol Fewnol yw eu bod yn dda iawn.

## Fersiwn Drafft y Cynllun Archwilio ar Gyfer 2006/07

**15.** Diben y cynllun archwilio blynyddol yw:

- penderfynu ar flaenoriaethau archwilio ar y cyd efo Rheolwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub
- pennu'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni'r dyletswyddau archwilio angenrheidiol
- ffurfioli gorchwylion archwilio
- adolygu gwaith archwilio'r flwyddyn flaenorol.

**Fersiwn Drafft y Cynllun Archwilio ar Gyfer 2006/07**
*(parhad)*

**16.** Nid yw'r cynllun archwilio ond wedi'i fwriadu fel canllaw. Gall newid mewn amgylchiadau neu ddigwyddiadau eraill anrhagweladwy arwain at wyro oddi wrth y cynllun. Cafodd y cynllun ar gyfer 2003/04 ei baratoi yn dilyn ymgynghori â Rheolwyr y Gwasanaeth Tân.

**17.** Mae'r cynllun archwilio strategol, sy'n cynnwys dadansoddiad risg, wedi'i fwriadu i ymorol am bob agwedd ar weithgarwch ATGC o fewn y cyfnod hwnnw. Mae'r cynllun hefyd yn cynnwys amser i weithredu ar argymhellion archwiliadau blaenorol.

**Argymhelliad**

**18.** Derbyn yr adroddiad.

Mae'r crynodeb o weithgarwch Archwilio Mewnol ar gyfer 2005/06 fel a ganlyn:

| | **Adran/Gwasanaeth** | **Diwrnodau Bwriedig 2005/06** | **Diwrnodau Mewn Gwirionedd 2005/06** |
|---|---|---|---|
| 1 | Ceisiadau penodol y Gwasanaeth Tân ac Achub | 2 | - |
| 2 | Cynllunio ac Adrodd am y Gwasanaeth Tân ac Achub | 4 | 4 |
| 3 | Camau dilynol | 2 | 1 |
| 4 | Cyflogau Diffoddwyr Tân Rhan Amser – Gogledd a De Gwynedd, Ynys Môn | 10 | 12 |
| 5 | Menter Twyll Cenedlaethol | 3 | 12 |
| 6 | Rheoli'r Fflyd | 7 | 15 |
| 7 | Cynllun Lwfansau ar gyfer yr Aelodau | 4 | 6 |
| 8 | Pencadlys y Gwasanaeth Tân | 15 | - |
| 9 | Cynllun wrth gefn | 3 | - |
| | CYFANSWM Y DIWRNODIAU | **50** | **50** |

Mae'r Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2006/07 fel a ganlyn:

| | Adran/Gwasanaeth | Diwrnodau Bwriedig 2006/07 | Prif Feysydd i'w cynnwys |
|---|---|---|---|
| 1 | Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub | 13 | Incwm a gwariant – adolygu'r gweithdrefnau a'r trefniadau rheoli. |
| 2 | Systemau Cyflogau – Lifrai Llawn Amser | 12 | Adolygu systemau'r system gyflogau newydd |
| 3 | Cyflogau Diffoddwyr Tân – Conwy a Sir Ddinbych | 10 | Adolygu'r gweithdrefnau gan nodi faint o oriau a weithiwyd, presenoldeb, ffioedd systemau, hyfforddiant, cofnodion cerbydau a rhestrau eiddo ayyb |
| 4 | Adolygu Technoleg a Gwybodaeth | 8 | Adolygu systemau |
| 5 | Cynllunio ac adrodd am y Gwasanaeth Tân ac Achub | 5 | Adroddiadau a chynlluniau blynyddol am weithgarwch archwilio |
| 6 | Adroddiad dilynol | 2 | Argymhellion archwilio blaenorol |
| | CYFANSWM Y DIWRNODIAU | **50** | |